# *Braslun o Hanes Clwb Pêl-droed Tal-y-bont a'r Cylch*

# *A Brief History of Tal-y-bont and District Football Club*



*Tîm 1923–24.*

*The 1923–24 team.*

Roedd Clwb Pêl-droed Tal-y-bont a'r Cylch yn un o aelodau sylfaenol Cynghrair Pêl-droed Aberystwyth a'r Cylch ym 1934. Chwaraeai'r Clwb yn yr Adran Sadwrn, goroesodd y tymor cyntaf ac yn anffodus gadawodd y gynghrair.

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd ni ddechreuodd Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch tan 1946/47 ac yn y flwyddyn ganlynol 1947/48 collodd y Clwb teitl yr Ail Adran mewn gêm dros ben yn erbyn Clwb Pêl-droed Bont o un gôl i ddim. Fodd bynnag, y flwyddyn ganlynol aeth y Clwb un cam ymhellach drwy ennill pencampwriaeth yr Ail Adran.

Dywedwyd mai'r tîm hwn oedd y gorau i wisgo'r crys ambr a du enwog ond heb amheuaeth bydd gan rai o chwaraewyr timau eraill a chwaraewyr y timau presennol rywbeth i ddweud am hynny. Trist nodi erbyn 1952/53 i'r Clwb unwaith yn rhagor adael y gynghrair.

Tal-y-bont and District Football Club was one of the founder members of the Aberystwyth and District Football League in 1934. The Club played in the Saturday Division, survived the first season and unfortunately dropped out of the league.

After the Second World War the Aberystwyth and District League did not start until 1946/47 and in the following year 1947/48 the Club lost the Second Division title in a play off against Bont FC by one goal to nil. However, in the following year 1948/49 the Club went one step further by winning the Second Division Championship.

It has been said that this team may have been the best to wear the famous black and amber strip but no doubt some of the players of other teams and the players of the current team will have something to say about that. It is sad to note that by 1952/53



*Tîm 1948–49.* *The 1948–49 team.*

Yn ystod y 1970au cafwyd diddordeb unwaith yn rhagor mewn pêl-droed yn y pentref a chwaraewyd nifer o gemau 'cyfeillgar' gan dîm o Dal-y-bont a'r uchafbwynt oedd ennill Cwpan Howell Williams ar Ebrill 29ain 1973. Y gêm olaf a chwaraewyd yn Newlands Park oedd Tal-y-bont yn chwarae yn erbyn y Llew Coch, Machynlleth, pan welodd torf enfawr Dal-y-bont yn ennill o bedair gôl i ddwy.

Canlyniad y diddordeb hwn mewn pêl-droed yn y pentref fu ailffurfio'r Clwb ym 1973 a bu'r Clwb yn chwarae yng Nghynghrair Aberystwyth a'r Cylch (gelwir yn awr yn Gynghrair Ffigar) ers hynny. Mae nifer o bobl o'r pentref a thu hwnt wedi gweithio yn galed i sicrhau fod y Clwb wedi parhau hyd heddiw.

Yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn, chwaraeai'r Clwb bêl-droed ar feysydd y Cyngor ym Mhlascrug, Aberystwyth a chawsant sawl crasfa yn y dyddiau cynnar. Fodd bynnag, aeth y Clwb o nerth i nerth ac yr oeddent yn ail i Glwb Pêl-droed Bryncrug yng Nghwpan Gogledd Ceredigion ym 1975/76 a chollasant yn y gêm derfynol yn erbyn Clwb Penrhyncoch hefyd flwyddyn yn ddiweddarach. Roedd y Clwb yn awr yn chwarae gemau cartref yng Nghae Erglodd a roddwyd drwy garedigrwydd Mr M. Evans. Roedd y Clwb yn ddigon cryf i gipio Cwpan Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch yn ystod tymor 1980/81 drwy guro Clwb Pêl-droed Phoenix o dair gôl i ddwy mewn gêm derfynol nas anghofir yn hawdd yng

the Club had once again dropped out of the league.

During the early 1970s interest in football once again prevailed in the village and several 'friendly' matches were played by a team from Tal-y-bont culminating in winning the Howell Williams Cup on April 29th 1973. The match played between Tal-y-bont and the Red Lion, Machynlleth was the last game played at Newlands Park with Tal-y-bont, watched by a large crowd, winning by four goals to two.

This interest in football in the village resulted in the Club being reformed in 1973 and the Club has been playing in the Aberystwyth and District Football League (now known as the Ffigar League) ever since. Many people from the village and beyond have worked hard in ensuring that the Club has survived to this day.

During these early years the Club played its football on Council pitches at Plascrug, Aberystwyth and suffered several drubbings early on. However, the Club went from strength to strength and were runners up to Bryncrug FC in the North Cardiganshire Cup in 1975/76 and also lost in the final of the South Cardiganshire Cup to Penrhyncoch FC a year later. The Club was now playing its home matches at Erglodd Field which was kindly given by Mr M. Evans. The Club was strong enough to capture the Aberystwyth and District League Cup in the season 1980/81 by defeating Phoenix FC by three goals to two

Nghoedlan y Parc. Arweiniai Tal-y-bont o dair gôl i ddim yn y gêm hon ond trawodd y myfyrwyr yn ôl gyda dwy gôl hwyr.

Yn ystod y tymor canlynol 1981/82 symudodd y Clwb i faes arall unwaith yn rhagor. Roedd y Clwb yn awr yn chwarae ar faes pêl-droed ardderchog yn Llety Llwyd lle y mae yn parhau i chwarae heddiw. Rhoddwyd caniatâd i chwarae ar y maes hwn drwy garedigrwydd caredig Mrs Mari Edwards, Fferm Llety Llwyd, sydd yn awr yn Is-lywydd am Oes o'r Clwb. Nid oes amheuaeth nad yw'r Clwb yn ddyledus iawn i Mrs Edwards am ddarparu'r maes hwn am gynifer o flynyddoedd a gobeithio am nifer o flynyddoedd i ddod. Bydd hyn yn darparu pêl-droed yn Nhal-y-bont a'r cylch ar gyfer y nifer o fechgyn ifanc addawol y pentrefi.

Yn ystod y 1980au a'r 1990au cyrhaeddodd y Clwb nifer o gemau cwpan cynderfynol a chymeront ran hefyd yng ngêm derfynol Cwpan Troffi newydd yr Adran Gyntaf ym 1992/3 dim ond i golli'n echrydus i Glwb Penparcau. Y safle uchaf y cyrhaeddodd y Clwb yn ystod y cyfnod hwn oedd trydydd parchus. Parhaodd enw da'r Clwb fel tîm cwpan da a thîm anodd i'w guro pan yn chwarae ar ei faes ei hun. Hefyd yn ystod y cyfnod hwn a chan gynnwys y timau presennol mae'r Clwb yn falch iawn o fod wedi ennill Cwpanau Sbortsmanaeth y Gynghrair ar sawl achlysur.

Ym 1992/93 gwnaethpwyd penderfyniad cadarnhaol a phwysig iawn gan bwyllgor y Clwb wrth benderfynu rhoi tîm wrth gefn yn Ail Adran Cynghrair Ffigar. Ceir dau dim hyd heddiw. Mae'r tîm wrth gefn yn rhoi cyfle i dalent ifanc y pentrefi, ynghyd â'r chwaraewyr mwy profiadol i droi allan bob dydd Sadwrn. Yn ogystal, mae'r tîm hwn yn rhoi cyfle i'r chwaraewyr gorau hawlio gêm yn y tîm cyntaf.

Heb amheuaeth roedd cael dau dîm yn ffactor pwysig i'r Clwb gael ei dymor mwyaf llwyddiannus erioed ym 1998/99. Roedd y tymor arbennig hwn yn un hynod ac nis anghofir. Daeth y tîm hwn yn ail yn y gynghrair; rhanwyd nifer uchaf o goliau a sgoriwyd yn ystod y tymor gyda Chlwb Penrhyncoch; chwaraeont yn gêm derfynol Cwpan Coffa Len a Julia Newman gan golli wrth saethu am gôl benalti gyda Chlwb Tywyn/Bryncrug; cyrhaeddont dair gêm gynderfynol arall, Cwpan J. Emrys Morgan

in a not to be forgotten final at Park Avenue. Tal-y-bont led by three goals to nil in this game but the students hit back with two late goals.

In the following season 1981/82 the Club moved its ground once again. The Club was now playing on an excellent football pitch at Llety Llwyd where it is still playing to this day. The Club has been allowed to play on this playing field by the generosity of Mrs Mari Edwards, Llety Llwyd Farm, who is now a Life Vice-President of the Club. There is no doubt that the Club is truly indebted to Mrs. Edwards for providing the field to the Club for so many years and hopefully for many more years to come. This will provide football in Tal-y-bont and district for the many up and coming young boys of the villages.

During the 1980s and 1990s the Club reached many cup semi-finals and also took part in the final of the new First Division Trophy Cup in 1992/93 only to lose heavily to Penparcau FC. The highest position that the Club had finished during this period was a respectable third. The Club has continued with its reputation of being a good cup team and a hard team to beat on its own pitch. Also during this period and including the present teams the Club is very proud of winning the League's Sportsmanship Cups on several occasions.

In 1992/93 a very positive and important decision was made by the Club's committee in deciding to enter a reserve team in the Ffigar League Second Division. The running of two teams remains to this day. The reserve team gives the opportunity for the young talent of the villages, together with the more experienced players to turn out every Saturday. Also, this team gives the better players the chance to claim a game in the first team.

No doubt the running of two teams was a major factor in the Club having its most successful season ever in 1998/99. This particular season was a remarkable and not to be forgotten one. This team finished runners up in the league; shared the highest goals scored in the season with Penrhyncoch FC; played in the final of the Len and Julia Newman Memorial Cup only to lose in a penalty shoot-out with Tywyn/Bryncrug FC; reached three other semi-finals, J. Emrys Morgan Cup (most prestigious cup for

(y cwpan pwysicaf i chwaraewyr iau yng Nghanolbarth Cymru), Cwpan Chwaraeon Ffigar a Throffi'r Adran Gyntaf – collwyd y gemau cynderfynol hyn i gyd gan yr ambell gôl. Yr hyn oedd yn gymaint o gamp oedd bod y tîm yn chwarae pedair gêm yr wythnos ar adegau. Mae'n bwysig nodi hefyd i'r ddau dîm ennill Cwpanau Sbortsmonaeth yn ystod y tymor hwn.

Ymddengys i'r Clwb fynd o nerth i nerth ac unwaith eto yn y tymor presennol hwn, sef 1999/2000 mae'r tîm wedi cyrraedd gêm gynderfynol Cwpan J. Emrys Morgan. Byddai'n gamp hynod i ennill y gystadleuaeth gwpan hon ar ddechrau'r mileniwm.

Yn ystod y pum mlynedd ar hugain diwethaf bu gan y Clwb sawl noddwr ac mae'r pwyllgor yn hynod ddiolchgar am hyn. Heb y noddwyr hyn a'r cyfraniadau ariannol a dderbyniwyd oddi wrth Gynghorau lleol, aelodau o'r gymuned ac ati, ni fyddai'r Clwb wedi goroesi ac felly gobeithia'r pwyllgor y bydd y berthynas rhwng y Clwb a'r pentrefi yn parhau. Dylid cofio hefyd na fyddai Clwb oni bai am faes, ac felly unwaith eto hoffwn bwysleisio pa mor ddiolchgar yw'r pwyllgor i Mrs Mari Edwards o Lety Llwyd am ddarparu maes mor ardderchog a gobeithio y bydd y trefniant hwn yn parhau i'r mileniwm newydd.

*Brynmor Smith*

junior teams in Central Wales), Ffigar Sports Cup and the First Division Trophy – all these semi-finals were lost by the odd goal. What made this a remarkable achievement was that the team had to play four matches a week on some occasions. It is also important to note that both teams won the Sportsmanship Cups in this season.

The Club seems to have gone from strength to strength and once again in this current 1999/2000 season the team has reached the semi-final of the J. Emrys Morgan Cup. It would be a truly remarkable achievement to win this cup competition at the start of the millennium.

Over the past twenty-five or so years the Club has had many local sponsors to which the committee is truly grateful. Without these sponsors and the financial contributions received from the local Councils, members of the community etc. the Club might not have survived and therefore the committee hopes that this relationship between the Club and villages continues. One must also remember that without a football field the Club will definitely not survive and once again I must stress the committee's thanks to Mrs Mari Edwards of Llety Llwyd for providing us with such an excellent field and hopefully this arrangement will continue into the new millennium.

*Brynmor Smith*